

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Tachwedd 20 fed - 2013
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cyngorwyr Maldwyn Williams (Cadeirydd, MW), Rhian Hughes (RH), Geraint Parry (Clerc), Gill Cheverton (GC), Lewis Davies(LD), Alwyn Rowlands(AR), Carwyn Jones(CJ), Alwena Roberts (AW) a Myrddin Roberts (MR)

2. Ymddiheuriadau - Cyng. Dafydd Pritchard

3. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 o Hydref fel rhai cywir gan Cyng. R Hughes, eilio gan Cyng. M Williams.

Dechreuodd y cyfarfod gan fynd yn syth i fanylion y Wefan i'r Cyngor Cymuned gan Neil Summers.

4. Materion yn codi o'r Cofnodion

- Wefan i'r Cyngor Cymuned - Neil Summers o Anglesey Computer Solution yn egluro manylion lle fydd cyfleuster i roi manylion cyswllt y cyngorwyr, lle i osod lluniau'r pentre', cofnodion, i fod yn ddwyieithog, linc i faterion eraill, tudalen hanesyddol ayyb. Penderfynwyd enwi'r safle CyngorCymunedLlanddona.org. Cost parth am ddwy flynedd - £30, lle i gynnal y wefan dros ddwy flynedd - £190, dylunio a chost sefydlu £300. Cynnig gan MR, eilio gan AR, felly penderfynwyd gofyn i Neil ymateb yn ôl gyda manylion erbyn cyfarfod nesaf. Clerc - mae yna ddisgwyliad gan Llywodraeth Cymru fod gwybodaeth a chyswllt gyda chynghorau Tref a Chymunedol yn cael ei gyhoeddi yn electronig erbyn Mai 2015.
- Tir Comin - yn anffodus nid oedd Leah Williams (Menter Môn) ar gael, yn ymuno a chyfarfod nesaf.
- Aelodau Cyngor Cymuned wedi ymweld â safle Mr Parry - Yr Orsedd ar 19/10/13, gan roi caniatâd iddo dorri'r coed helyg, dilyn derbyn cyngor gan Ed Henderson - Cyngor Sir.

5. Adroddiad gan y Cyngorwyr

LD - hollt yn y lôn ger y traeth, Gethin Gilford (Cyngor Sir) wedi ymweld ar safle, disgwyl ymateb. Ruth wedi cysylltu ar Cyngor Sir, trwy cyfarfod gyda Sioned Jones i ail edrych ar y materion. Maent debygol yno bydd fwy o lithriad tir yn digwydd.

Prynu gorfodol y fynwent - Clerc wedi anfon copis o'r hen gofnodion oedd yn cyfeirio at gyllid oedd ar gael ar y pryd. Wedi paratoi llythyr i Mr RP Jones gan egluro pryderon y Cymuned i wneud a phwrcasu'r tir.

CJ - dilyn y cais cynllunio (Y Fynwent) sydd wedi cael ei gymeradwyo, fydd adroddiad llawn yn mynd o flaen pwyllgor gwaith ar 2/12/13. MR - byddai'n syniad da os oes gan y Cyngor Sir drefn lle mae amserlen o ddigwyddiadau ar gael.

AR - mae yna system lle bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod yn anffurfiol. Yn ystod cyfarfod diwedda, maent wedi cefnogi'r cais hyn.

LD - wedi cael copi o'r arolwg a gynhaliwyd gan y Cyngor Sir ar y llifogydd ger yr Owain Glyndŵr. Edrych i godi cerrig palmant ac asesu llif dwr ar wyneb y ffordd. MW - hyn ydi'r eilwaith maent wedi codi cerrig palmant yno.

6. Datgan Diddordeb

MR a AW ar drafodaeth yr Eglwys, RH ar drafodaeth Pwyllgor yr Henoed.

7. Ceisiadau Cynllunio

Dim cais cynllunio i drafod.

Er Gwybodaeth

- 22LPA987/CC - Cais i newid defnydd tir er mwyn creu estyniad i'r fynwent yn Eglwys St Iestyn, wedi ei caniatáu.
- 22C211C - cais llawn i godi twrbin gwynt yn Yr Orsedd - wedi ei wrthod.

8. Llythyrau gan y Swyddfa Gofrestru Tir

Llythyrau rhybudd B133 gan y swyddfa gofrestru tir i ymneud a hawliau maenorol arglwydd y faenor Treffos wedi achosi llawer o bryderon i bobl leol.

Aethom drwy un cais UN4 a dderbyniwyd gan MR, yn ymweld tir a cofrestredig i'r Cyngor Cymuned.

Rydym wedi derbyn y canlynol -

CYM526084 tir yn Llanddona

CYM369511 tir ger Porth y Dref

CYM131257 tir comin Llaniestyn

MR – os mae'n gwrthwynebu ein hawliau, bydd gost i bob un ohonom. Byddai'n syniad cael gyfarfod lleol gyda'r holl arbenigwyr yn bresennol, er mwyn fod yn ymwybodol o beth sydd ein hwynebu.

Dim yn deg bod cymaint o unigolion yn y sefyllfa yma. Nid oes unrhyw son am yr hawl yma mewn chwiliadau.

9. Cyfrifon - cytunwyd i dalu:-

- J Roberts, gwaith awdit 2012/13 - £40
- Royal British Legion, torch - £17
- Idris Roberts, gwaith torri llwybrau - £1,500
- Pwyllgor yr Henoed, parti Nadolig - £100
- Mynwentydd Eglwysi'r Plwyf - £550
- Elin Haf Thomas - £100
- Hurio Ystafell Ysgol, Hydref a Thachwedd - £40

Cytunwyd i beidio talu Countryside Management £144, ar gyfer gwaith chwistrellu canclwm siapian hyd nes y byddwn wedi trafod y tir comin gyda Leah Williams o Menter Môn.

Incwm

- Credyd ailgylchu - £106

10. Gohebiaeth

Llythyr Mrs E Madine – Mynwentydd Eglwysi'r Plwyf

Apêl - Ffion Haf Thomas

Llythyr – Pwyllgor Henoed Llanddona

Llythyr – Cyngor Sir, llwybr rhif 15

Apêl - Dawn i Bawb

Apêl - Eisteddfod Gerddorol Llangollen

Apêl - Urdd Gobaith Cymru

Llythyr – Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd.

11. UFA:

- RH - oedd arian ar gael blynyddoedd yn ôl i gynnal a chadw tir comin gan Cyngor Cefn Gwlad. Mae comin Llaniestyn yn statws SSI.
- Derbyniwyd cais gan Mrs E Madine, gofyn am gyfraniad tuag at gost £550 i dorri mynwentydd St Donna a St Iestyn. Penderfynwyd talu £550.
- Derbyniwyd cais gan Ffion Haf Thomas am rodd tuag at ymweliad a Phatagonia blwyddyn nesaf. Penderfynwyd cyfrannu £100, cynnig gan AR, eiliwyd gan RH
- Derbyniwyd cais gan Pwyllgor yr Henoed Llanddona tuag at barti Nadolig. Penderfynwyd cyfrannu £100, cynnig gan AR, eiliwyd gan MW.
- Llwybr rhif 15 - Cyngor Sir yn bwriadu gwyrô'r llwybr oherwydd y tirlithriad.
- Cynllun datblygu lleol ar y cyd - seminar yn Neuadd y Dref, Llangefni 6/12/13 rhwng 4 - 7yh.
- Clerc yn egluro materion a thrafodwyd yn cyfarfod grŵp Ffocws 18/10/13. Ceisiadau cynllunio yn mynd yn electronig Ebrill 2014.
- Clerc i anfon llythyr o gefnogaeth at gais grant o'r Loteri gan Pwyllgor y Neuadd.
- Penderfynwyd anfon llythyr o gefnogaeth at Idris a Carol Jones, sydd yn derbyn triniaeth canser.
- Cytunwyd i roi £100 tuag at apêl cofeb Fflandrys.

12. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.15 o'r gloch.

Cyfarfod nesaf 18/12/13 am 7.30.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad